Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**First Steps Day Nursery Ltd**

**The Croft**
**Heol Alltami**
**Bwcle**
**CH7 3PG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 21 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd First Steps Cyf yn gweithredu o dŷ ar wahân yn Alltami, Sir y Fflint. Jeanney Reynard yw'r unigolyn cyfrifol a Nanda Merton yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 51 o blant o dan 12 oed. Mae'r feithrinfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30 a 18:00 ac ar ddydd Sadwrn rhwng 8:00 a 16:00. Saesneg yw prif iaith gyfathrebu'r feithrinfa; fodd bynnag, mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'r feithrinfa yn hyrwyddo Cymraeg fel ail iaith, ond ar hyn o bryd, nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y 'Cynnig Rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Arolygiad dirybudd ychwanegol oedd yr arolygiad hwn er mwyn asesu'r gwelliannau roedd yr arweinwyr wedi'u gwneud i'r gwasanaeth mewn perthynas â phryderon am y tîm rheoli, diogelwch y safle a gofal a datblygiad y plant o ganlyniad i hynny.

Gwelsom fod y plant yn hapus iawn a'u bod yn mwynhau eu hamser yn y feithrinfa. Cânt gyfleoedd i dyfu a datblygu gan fod y gweithgareddau a'r profiadau a gynigir yn briodol ar gyfer eu hoedran, yn ddiddorol ac yn ysgogol. Mae'r staff yn fedrus, yn meddu ar gymwysterau addas ac mae ganddynt lefel briodol o ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Gwelsom fod yr arweinwyr wedi ymdrin â'r pryderon a nodwyd yn syth pan dynnwyd eu sylw atynt, ond bod angen cymryd camau pellach i sicrhau bod drysau allanol ychwanegol dan glo a bod yr arferion wrth newid cewynnau yn cydymffurfio â'r canllawiau a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol, yn hawdd mynd atynt ac yn awyddus i wella eu gwasanaeth, ac maent yn anelu at ddarparu gofal o ansawdd da. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac maent bellach wedi sicrhau y caiff rheolwyr ychwanegol eu penodi i oruchwylio'r broses o redeg y feithrinfa os na fyddant ar gael.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad, ymdriniwyd â'r canlynol ac felly fe'u nodir fel gwelliannau i'r gwasanaeth:

- Anfonodd yr unigolyn cyfrifol ddigon o wybodaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i enwebu pobl ychwanegol â chyfrifoldeb ar fyrder. Byddant yn cwmpasu cyfnodau pan fydd yr unigolyn cyfrifol a rheolwr y feithrinfa yn absennol. Darparwyd datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru hefyd yn nodi manylion y strwythur rheoli;

- gwnaeth yr unigolyn cyfrifol y newidiadau gofynnol i enw'r feithrinfa, gan fod y manylion ar y dystysgrif Yswiriant Atebolrwydd cyhoeddus, tystysgrif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru a'r enw a oedd gan AGC a Thŷ'r Cwmnïau yn eu cofnodion

yn wahanol. Cymeradwywyd cais i amrywio manylion y dystysgrif cofrestru drwy ddileu'r gair 'Private' o enw'r feithrinfa gan ei newid i 'First Steps Day Nursery Ltd'. Hysbysodd yr arweinwyr y sefydliadau perthnasol am y newid;

- lluniwyd/adolygwyd asesiadau risg ar gyfer y drws ochr allanol, ac ar gyfer yr ardal newid cewynnau a'r toiledau, fel y bo angen a rhoddwyd copi i AGC i'w archwilio. Roedd yr asesiadau hyn yn nodi sut y caiff allweddi drysau eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant, ond gan sicrhau eu bod ar gael i'r staff mewn argyfwng a phan fydd angen iddynt ddefnyddio'r drws am resymau eraill. Roeddent yn nodi hefyd sut y byddai risgiau yn yr ardal newid cewynnau a'r toiledau wrth ymyl y drws, hyd y bo'n ymarferol bosibl, yn cael eu dileu;

- gwnaed newidiadau i'r polisi newid cewynnau mewn perthynas â rhoi haen amddiffynnol o liain/papur ar y mat newid o dan y plant, a sut y dylai'r staff sicrhau bod y ffedogau a'r papur a ddefnyddiwyd wedi cael eu gwaredu'n ddiogel, cyn tynnu'r menig a golchi eu dwylo.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom nodi diffygion mewn perthynas â diogelwch y safle a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio staff, gan fod y materion hyn wedi'u nodi'n flaenorol mewn arolygiad cynharach eleni. Ni wnaethom gyhoeddi hysbysiadau diffyg cydymffurfio gan nad oeddem o'r farn, y tro hwn, fod unrhyw effaith ar les y plant a hefyd gan fod y feithrinfa wedi ymdrin â'r pryder mewn perthynas â diogelwch ar unwaith.

- mewn perthynas â sicrhau y caiff drws ochr y feithrinfa ei gadw dan glo bob amser a bod asesiadau risg ar waith ar gyfer ardal awyr agored a adnewyddwyd yn ddiweddar,

- mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio priodol yn rheolaidd a gaiff eu cofnodi'n ffurfiol ac a ddefnyddir yn ystod y broses arfarnu flynyddol.

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r canlynol:

- cynnig cyfleoedd pellach i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth;

- adolygu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â chanllawiau gan 'Iechyd Cyhoeddus Cymru' a thrwy gwblhau'r 'Adnodd Archwilio ar gyfer Rheoli Heintiau';

- cofnodi cwynion a phryderon mewn llyfr cofnodion priodol y gellir ei fonitro'n hawdd, yn ogystal â'r arfer presennol o storio'r holl ddogfennaeth yn ffeiliau'r plant;

- darparu adnoddau ac arddangosiadau amlddiwylliannol ychwanegol yn y feithrinfa.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant ym Meithrinfa Ddydd First Steps Cyf yn gyfathrebwyr hyderus; maent yn gwneud ceisiadau a gwrandewir arnynt. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn cael sicrwydd ac ymateb prydlon. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill, maent yn gwrtais, yn cydweithredu ac yn cymryd troeon. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu a gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Gellid cynnig mwy o gyfleoedd i helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau hunan-help a'u hannibyniaeth ymhellach.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais cryf.

Gwnaeth y plant ddewisiadau ym mhob agwedd ar eu chwarae. Gwnaethant ddewis gyda phwy roeddent am chwarae, pa deganau i'w defnyddio a ble i chwarae o fewn eu hystafelloedd unigol ac yn yr awyr agored. Yn yr ystafell fabanod, roedd y plant yn hapus yn ymdrin ag amrywiaeth o offerynnau cerddorol a llyfrau a osodwyd allan iddynt ar fat. Gwelsom y plant bach yn cyffroi pan ddywedwyd wrthynt yn ystod amser cylch y gallent chwarae yn y tywod. Roedd un plentyn, a welodd blant eraill yn gludo ac yn glynu ffyn lolipop a lluniau o gylchgronau, am ymuno yn y gweithgaredd hwnnw. Croesawyd y plentyn i'r gweithgaredd grŵp a rhoddwyd yr adnoddau priodol iddo allu rhoi cynnig arni.

Mae'r plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau ac yn gwybod y bydd y staff bob amser yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn adnabod y rheini sy'n gofalu amdanynt yn dda. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn gan fod ffotograffau wedi'u harddangos yn y brif fynedfa, y coridorau ac ar fyrddau, ar waliau ac o'r nenfydau ym mhob ardal. Maent yn gweld eu gwaith celf, sydd wedi'i gyflwyno'n dda, yn cael ei arddangos i eraill ei weld, sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o fod yn rhan o'r feithrinfa, yn ogystal â'r ffaith bod trefniadau hanfodol ar waith megis pegiau cotiau personol a mannau i storio eu heiddo personol a phethau i fynd adref â nhw.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'u hamgylchedd sydd wedi'i gynllunio mewn modd ystyriol; mae'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn ychwanegu cryn werth i'w hymdeimlad o lesiant a pherthyn.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ag eraill.

Cydweithredodd y plant yn dda â'r staff adeg tacluso. Er enghraifft, helpodd y plant bach i dacluso'r adnoddau yn yr ardal awyr agored ac fe'u canmolwyd gan y staff a ddywedodd "good helping, well done". Roeddent yn gwrtais gan ddweud “diolch” / “thank you” amser cinio am eu diod heb gael eu hannog i wneud hynny. Gwelwyd digon o enghreifftiau o gymryd troeon a rhannu. Er enghraifft, pan oedd y plant yn chwarae yn y tywod, gwnaethant rannu twndis gan arllwys tywod drwyddo er mwyn troi'r olwyn. Anogwyd y plant i gyfrannu at drafodaethau yn ystod 'amser cylch', i ganu'r rhigymau a'r caneuon ac i ymuno yn y symudiadau. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn chwarae gemau cuddio a sbïo drwy ffenestri'r tŷ chwarae a gwnaethant fwynhau cropian drwy'r lindys, gan chwerthin a phiffian wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn mwynhau cwmni'r plant eraill, yn gwneud ffrindiau yn hawdd ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar y rhan fwyaf o'r amser.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain.

Roedd y plant cyn oed ysgol yn chwarae yn yr awyr agored gan baentio â dŵr, siglo ar deiar a defnyddio tywod a deunyddiau adeiladu. Gwnaethant gyd-chwarae'n dda, gan helpu eu ffrindiau pan oedd angen gwneud hynny, sgwrsio a gwenu a chael 'a good time' fel y nodwyd gan un o'r plant. Dan do, roedd gan y plant ddiddordeb mawr yng ngweithgareddau cyfrif 'Numicon Boards', didoli lliwiau a siapiau unedau. Llwyddwyd i gynnal eu diddordeb am gyfnodau priodol o amser ac roedd yn amlwg eu bod yn dysgu o'u profiadau. Roedd plant eraill yn chwarae'n ddychmygus yn y gornel cartref, gan chwarae teuluoedd ac actio sefyllfaoedd roeddent fwy na thebyg yn eu gweld gartref yn ystod gwyliau'r haf, gan bacio eu bagiau er mwyn mynd ar wyliau a thrafod beth oedd ei angen arnynt. Roedd y plant iau yn gallu datblygu'r cydgysylltiad rhwng eu dwylo a'u llygaid wrth chwarae â pheli o wahanol faint, a'u rholio at ei gilydd. Gwnaeth y babanod yn arbennig fwynhau eu profiadau synhwyraidd gyda llieiniau mwslin yn cyffwrdd â'u hwynebau pan oeddent yn gorwedd ar y llawr a'r staff yn canu hwiangerddi iddynt. Gwnaeth hyn iddynt biffian a chwerthin wrth aros i'r lliain eu goglais.

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau diddorol ac ysgogol y maent yn eu profi dan do ac yn yr awyr agored o fudd mawr i'r plant, ac yn ddi-au yn eu helpu i ddysgu ac yn darparu oriau o fwynhad.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft maent yn golchi eu dwylo eu hunain ac yn gwisgo dillad ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, gellid cynnig mwy o

gyfleoedd, er enghraifft, arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod prydau bwyd. Gydag amser, gallai'r plant feistroli'r technegau sydd eu hangen er mwyn arllwys dŵr o jwg neu ail-lenwi potel. Drwy adolygu pryd a ble y gall y plant ymarfer y sgiliau hunan-help hyn, gellir grymuso'r plant i ddysgu drostynt eu hunain. Roedd y babanod yn cael y teganau a'r cyfarpar angenrheidiol i'w hannog i symud o gwmpas a rhoddwyd cyfleoedd i'r plant hŷn siglo ar deiar, balansio ar deiars a chanfod eu ffordd ar draws wal ddringo a gynlluniwyd yn bwrpasol.

Rhoddir cyfleoedd i'r plant ddatblygu, dysgu a dod yn annibynnol ond mae'n bwysig eu bod yn cael cyfleoedd i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain y byddai'r staff fel arfer yn eu gwneud ar eu rhan.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar lesiant y plant ac arwain a rheoli. Nid oedd AGC o'r farn bod angen ystyried pob agwedd ar ofal a datblygiad. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Rhoddir blaenoriaeth i ofalu am y plant, eu datblygu a'u diogelu yn y feithrinfa hon. Mae gan y staff hoffter gwirioneddol tuag at y plant sydd yno. Maent yn gweithio'n galed fel tîm i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith a chaiff unrhyw newidiadau a wneir eu trafod gyda'r staff. Fodd bynnag, roedd angen gwneud newidiadau i'r ddogfennaeth mewn perthynas â newid cewynnau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff gweithgareddau chwarae ac ymarfer corff yn yr awyr agored eu hyrwyddo'n helaeth drwy'r feithrinfa, gan sicrhau y caiff y plant awyr iach er mwyn hybu eu hymdeimlad o lesiant. Bydd cymryd mwy o ran mewn mentrau amrywiol yn gwella'r gwaith y mae'r staff eisoes yn ei wneud ac yn sicrhau arferion diogel.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn anelu at gadw'r plant yn ddiogel ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i'w helpu.

Gwnaethom drafod gweithdrefnau amddiffyn plant a diogelu gyda'r arweinwyr a'r staff ac roeddem yn fodlon eu bod yn wybodus yn eu cylch ac yn gwybod pwy y dylent fynd atynt/gysylltu â nhw pe byddai ganddynt unrhyw bryderon. Roedd pob aelod o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant a ddarparwyd gan y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol (NDNA) ym mis Hydref 2016, a dywedodd rhai ohonynt ei fod yn 'really good'.

Mae'r feithrinfa yn cymryd rhan yng nghynllun 'Gwobr Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy' a 'Menter Cymuned Iach' Sir y Fflint a derbyniodd dystysgrif arfer gorau 'Tiny Tums' ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar ym mis Mehefin 2018 gan ddangos bod y feithrinfa yn annog y plant i fwyta'n iach. Caiff y bwydlenni eu hachredu gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn sicrhau bod y plant wedi'u hydradu ac yn rhoi eli haul arnynt yn rheolaidd. Caiff cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored eu hyrwyddo; roedd y plant yn chwarae yn yr haul ac yn bwyta eu cinio yn yr awyr agored mewn ardal wedi'i chysgodi yn yr awyr iach. Caiff y plant eu hannog i fwyta'n iach a chynigiwyd byrbrydau a phrydau iach iddynt. Caiff bwydlenni dyddiol eu harddangos ar ddrws y gegin a nodwyd bod y staff sy'n paratoi'r bwyd yn gweithio'n gyson ac yn meddu ar gymwysterau priodol mewn Diogelwch Bwyd Sylfaenol. Paratôdd y cogydd bastai cyw iâr a llysiau â thatws i ginio, ynghyd ag opsiwn pastai llysieuol a oedd yn cynnwys Quorn. Mae'r staff yn rhoi systemau gweithwyr allweddol ar waith yn effeithiol, ac yn goruchwylio'r plant yn dda y rhan fwyaf o'r amser. Gwnaed argymhelliad o ran y gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau a'r toiledau. Dylid eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r plant yn ardal y toiledau yn hydrin ac y caiff gweithdrefnau priodol eu dilyn wrth lanhau'r matiau newid

cewynnau. Gwnaethom argymell y dylid dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac y dylid cwblhau 'Archwiliad ar gyfer Rheoli Heintiau'.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelwch y plant, eu hiechyd a'u lles. Mae angen adolygu rhai arferion.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

Canmolodd y staff y plant gan ddefnyddio iaith gadarnhaol pan oeddent yn cydweithredu ac yn cwblhau tasgau a phan oeddent yn ymdrechu'n galed i gyflawni tasgau. Roedd y staff yn rhoi maldod a mwythau i'r plant, er enghraifft, ar ôl i blentyn syrthio wrth chwarae gyda'r tywod yn yr awyr agored. Llwyddwyd i dawelu'r plentyn yn gyflym drwy drafod yn dyner yr hyn a oedd wedi digwydd a rhoi mwythau iddo.

Gwnaethom drafod y newidiadau diweddar yn y polisi rheoli ymddygiad mewn perthynas â gofyn i'r plant dreulio amser gydag aelod o staff ('Time Out') gyda'r arweinwyr a'r staff. Ymatebodd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw i'r cwestiynau a ofynnwyd yn briodol, gan ddangos tystiolaeth bod y feithrinfa weithiau yn tynnu plentyn o sefyllfa benodol ac yn gofyn iddo eistedd gydag aelod o staff er mwyn egluro iddo pam nad oedd yr hyn a wnaeth o reidrwydd yn briodol a gofyn i'r plentyn wedyn ymddiheuro i'r unigolion dan sylw.

Roedd y staff yn rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd gyson gan ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol a oedd yn gweithio'n dda. Roedd y plant yn ymateb yn briodol ac mewn ffodd amserol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar rai agweddau ar bob thema. Nid oedd AGC o'r farn bod angen ystyried pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol y tro hwn. Fodd bynnag, caiff ei ystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar lesiant y plant ac arwain a rheoli. Nid oedd AGC o'r farn bod angen ystyried pob agwedd ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Mae sawl system ar waith gan y feithrinfa i atal mynediad anawdurdodedig i'r safle. Fodd bynnag, ni ellir dibynnu bob amser ar y staff na'r rhieni i gau/cloi'r giatiau na'r drysau ar ôl iddynt eu defnyddio, sy'n peri risg i'r plant os na sylwir ar hynny. Mae'r arweinwyr yn defnyddio cwmni allanol i gynnal archwiliadau ac i helpu i lunio asesiadau risg ar gyfer y safle, yr ardaloedd awyr agored a'r mannau yr ymwelir â nhw. Darparwyd asesiadau risg pellach yn ystod yr arolygiad ar gyfer ardaloedd newydd a gaiff eu defnyddio a lle y nodwyd gennym bod angen eu hadolygu.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Mae'r safle yn defnyddio pwynt mynediad sy'n defnyddio system adnabod ôl bawd drwy'r prif ddrws ac mae camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) ar waith drwy'r safle. Mae sawl giât y tu allan a gaiff eu cau â bollt ac mae arwyddion arnynt sy'n nodi y dylid eu cau ar ôl eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod drws ochr i'r feithrinfa heb ei gloi pan wnaethom gyrraedd a thynnwyd sylw'r unigolyn cyfrifol at hyn ar unwaith. Ni fyddai'r plant wedi gallu gadael y safle gan fod y giatiau wedi'u cloi, ond gallai pobl anawdurdodedig fod wedi cael mynediad. Unionodd yr arweinwyr y sefyllfa drwy gloi'r drws a gosod yr allweddi ar fachyn uwchben y drws. Roedd hysbysiadau niferus i'w gweld yn gofyn i'r staff gau/cloi'r drws pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom drafod gyda'r staff o dan ba amgylchiadau y byddent yn defnyddio'r drws. Lluniwyd asesiad risg pellach ar unwaith gan yr unigolyn cyfrifol a nodwyd camau gweithredu ychwanegol i'w cymryd wrth osod cewynnau yn y biniau y tu allan ac wrth ddefnyddio'r drws i fynd â'r plant i'r ysgol. Hysbyswyd y staff ar unwaith y dylent gloi'r drws ar eu holau pe byddent yn gadael y safle gan ddefnyddio allwedd ychwanegol a gâi ei hatodi i allweddi'r cerbyd a ddefnyddir ar gyfer mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu. Byddai hyn yn sicrhau bod allwedd bob amser ar gael ar y bachyn er mwyn gallu tywys y plant drwy'r allanfa hon pe byddai angen wrth wagio'r adeilad yn ddiogel. Nodwyd gennym hefyd bod y staff yn cyflawni 'gwiriadau cyn ac ar ôl agor' lle y sicrheir fod y drysau wedi'u cloi ac y cadarnheir bod yr allweddi yn hygyrch ond y tu allan i gyrraedd y plant. Cadarnhaodd yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol, fel y nodir ar y rhestr wirio, ei fod wedi cyflawni'r gwiriadau hyn ar y diwrnod hwnnw, cyn i ni ganfod nad oedd y drws wedi'i gloi. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau ar waith i leihau'r risg i blant erbyn diwedd yr arolygiad.

Rhoddir copi o bob asesiad i'r staff a chaiff yr asesiadau hynny sy'n berthnasol i'w hardaloedd gwaith hefyd eu harddangos yn yr ystafelloedd. Mae'r arweinwyr yn defnyddio

cyfarfodydd staff i drafod asesiadau risg ac yn cynnwys y staff yn y broses o'u llunio a'u rhoi ar waith.

Gwelsom y staff yn glanhau ardaloedd yr oedd plant yn bresennol ynddynt. Fodd bynnag, roedd y plant yn cael eu symud o amgylch ardaloedd, er enghraifft ar ôl cinio ac wrth osod gweithgareddau, er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw risg iddynt. Dywedodd y staff wrthym nad ydynt yn dechrau glanhau tan 17:30 a bod tri aelod o staff yn gweithio'n hwyr bob noson er mwyn gwneud y gwaith hwn. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu na chaiff y plant eu goruchwylio'n effeithiol yn ystod y cyfnodau hyn, na'u bod mewn perygl o ganlyniad i'r deunyddiau glanhau. Fodd bynnag, yn yr ardal newid cewynnau, bu'n rhaid i ni ofyn i rai eitemau gael eu storio'n ddiogel gan fod perygl y gallent syrthio o silff uwchben y plant. Ni allai'r plant gael gafael ar hylifau glanhau yn yr ardaloedd hyn ond gallent gyffwrdd â mopiau a brwsys, a gwnaethom argymell y dylid eu symud.

Mae'r arweinwyr, ar y cyd ag archwilwyr allanol, yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y safle yn ddiogel, ond ceir ambell i ddigwyddiad y mae'n rhaid ei atal, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar rai agweddau ar bob thema. Nid oedd AGC o'r farn bod angen ystyried addasrwydd yr amgylchedd. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da a chânt eu harchwilio'n rheolaidd.

Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar a welwyd yn addas ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant a oedd yn eu defnyddio. Roedd yr arweinwyr yn eu harchwilio'n rheolaidd ac roeddent wedi rhoi rhestrau gwirio dyddiol ar waith i oruchwylwyr ystafelloedd fel ffordd effeithiol o sicrhau y câi eitemau a oedd wedi torri eu nodi ac y caed rhai newydd yn eu lle.

Gwnaethom argymell y dylid creu arddangosiadau mwy amldiwylliannol gan fod y gwasanaeth yn cynrychioli gwahanol ddiwylliannau yn dda, yn codi ymwybyddiaeth y plant, yn hyrwyddo cyfle cyfartal a pharch at eraill. Roedd y staff a'r plant wedi creu arddangosiad 'Year of the Dog' gan ddefnyddio adnoddau i gynrychioli Tsieina fel gwlad a'i phobl yn effeithiol. Gwelwyd nifer fach o ddoliau amlddiwylliannol, ond byddai adnoddau pellach, ac amrywiaeth ehangach ohonynt, ac arddangosiadau yn ehangu ymwybyddiaeth y plant ymhellach.

Caiff adnoddau eu dewis yn bwrpasol ac maent o ansawdd da. Maent yn para gan eu bod yn cael gofal da ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Gellid datblygu ymwybyddiaeth

bellach o amrywiaeth ehangach o 'genhedloedd y byd' pe crëwyd arddangosiadau ychwanegol a phe byddai adnoddau priodol ar gael.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn anelu at ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio ac sy'n diwallu anghenion y plant, y staff a'r rhieni. Lle y caiff pryderon eu codi, maent yn ymateb yn brydlon ac yn y gorffennol, maent wedi gwrando'n gyson ar argymhellion, wedi'u hystyried ac wedi gweithio mewn partneriaethau â sefydliadau er mwyn unioni unrhyw ddiffygion. Enwebwyd pobl ychwanegol â chyfrifoldeb er mwyn gweithredu pan fydd rheolwyr yn absennol. Defnyddir staff yn effeithiol ac mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r plant yn dda. Mae'r arweinwyr a'r staff yn hawdd mynd atynt ac maent wedi datblygu cydberthnasau da â'r rhieni a gofalwyr.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn anelu at fod yn bresennol yn y feithrinfa mewn rolau ychwanegol drwy gydol pob dydd, ac eithrio pan fyddant yn cludo'r plant neu'n prynu adnoddau. Gwnaethom argymell y dylid penodi pobl ychwanegol â chyfrifoldeb er mwyn gweithredu yn ystod cyfnodau pan fydd yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb/rheolwr y feithrinfa yn absennol.

Ar hyn o bryd, cedwir cofnodion am gwynion a phryderon yn ffeiliau'r plant unigol ac nid gyda'i gilydd mewn cofnod/llyfr cofnodion, a fyddai'n helpu'r arweinwyr i nodi patrymau, amseroedd digwyddiadau a'r rheini a oedd yn gyfrifol am y plant ar y pryd. Nodwyd gennym bod yr arweinwyr wedi ymateb i rieni a gododd bryderon ac i bryderon dienw a gafwyd gan AGC. Ym mhob achos, cymerwyd y camau gweithredu priodol ac roedd y cyfathrebu yn gymharol dda. Fodd bynnag, mae angen i'r rheini roi gwybod i'r arweinwyr pan fydd newid cyfeiriad er mwyn sicrhau y gall llinellau cyfathrebu barhau.

Nodwyd gennym bod yr arweinwyr yn hawdd mynd atynt yn ôl y staff a'r rheini y gwnaethom siarad â nhw. Roedd adegau pan oedd yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yn absennol o'r feithrinfa gan eu bod wrthi'n prynu eitemau bob dydd ac yn cludo'r plant i'r ysgol. Rhoddwyd cyfrifoldeb i bobl addas ar yr adegau hyn ond ni throsglwyddwyd eu manylion na'u rolau i AGC fel y gofynnwyd. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol y dylent fod ar gael i'r rhieni pe byddai angen iddynt siarad â nhw a gwnaethant ddangos dyddiadur dyddiol i ni yn cynnwys apwyntiadau gyda'r rhieni i drafod ymholiadau. Gwelsom rieni hefyd yn mynd i mewn i'r swyddfa i siarad â'r arweinwyr yn ystod yr arolygiad, a dewisodd rhai ohonynt siarad yn uniongyrchol â'r staff wrth gasglu eu plentyn. Gwrandawodd yr unigolyn cyfrifol ar y cyngor a roddwyd ac enwebodd berson ychwanegol â chyfrifoldeb ac anfonodd y ddogfennaeth ofynnol i AGC yn ystod yr arolygiad.

Dychwelwyd holiaduron AGC gan 12 aelod o staff gan nodi eu bod o'r farn bod yr arweinwyr yn hawdd mynd atynt a'u bod yn gadarn o blaid y fffordd y caiff y feithrinfa ei rheoli.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae ymrwymiad i unioni diffygion a monitro staff, eu rolau a'u cyfrifoldebau. Lle y caiff pryderon eu nodi, ymdrinnir â nhw'n briodol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar rai agweddau ar bob thema. Nid oedd AGC o'r farn bod angen ystyried y trefniadau hunanwerthuso na gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, caiff y thema hon ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Caiff y staff a'r adnoddau eu rheoli'n dda.

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac er mwyn sicrhau y caiff cymarebau staffio eu cynnal bob amser, mae'r staff yn sicrhau y caiff eu henwau eu cynnwys ar gofrestri dyddiol ac y caiff yr amseroedd y byddant yn cyrraedd ac yn gadael yr ystafell neu'r safle eu cofnodi'n gywir. Gwelsom niferoedd digonol o staff yn goruchwylio'r plant drwy gydol y dydd. Weithiau, roedd y staff yn symud o amgylch er mwyn hwyluso trefniadau glanhau a sicrhau bod trefniadau goruchwylio digonol ar waith ar gyfer y plant, er enghraifft yn ystod cyfnodau newid cewynnau ac wrth fynd â phlant i'r toiled a pharatoi byrbrydau. Roedd yr arweinwyr a goruchwylwyr yr ystafelloedd yn sicrhau bod y staff yn mynd â'r cofrestri gyda nhw wrth fynd â'r plant allan i'r awyr agored. Gwnaethom argymell y dylid mynd ag unigolion i ardal y toiledau yn hytrach na grwpiau bach.

Roedd ffeiliau'r staff a archwiliwyd gennym yn cynnwys yr holl ddogfennaeth ofynnol. Gwnaethom drafod datganiadau iechyd y staff a'r gweithdrefnau sydd ar waith i hwyluso'r drefn o roi meddyginiaeth mewn perthynas â staff ar y safle.

Gwnaethom drafod gyda'r arweinwyr y gweithdrefnau a ddilynir wrth ddefnyddio staff ategol pan fydd staff arferol yn absennol. Nodwyd gennym bod y staff ategol yn gyfarwydd â'r plant, y safle a'r staff a'u bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Pan ofynnwyd iddynt, cadarnhaodd y staff llawn amser fod yr arweinwyr yn fwy na pharod i helpu pan fydd angen neu fel arall, y byddant yn anfon aelod arall o staff i helpu er mwyn sicrhau y bodlonir cymarebau staffio. Cadarnhaodd un aelod o staff hefyd fod digon o staff yn bresennol y bore hwnnw a phob diwrnod arall i oruchwylio'r plant hyd nes y byddai'r rhan fwyaf o'r staff yn cyrraedd am 9:00. Cadarnhaodd rotas y staff fod tri aelod o staff yn cyrraedd am 7:30 bob bore; roedd hyn yn ddigonol i oruchwylio nifer y plant a oedd yn mynychu ar draws yr ystod oedran. Roedd pob uned yn cael ei defnyddio erbyn 9:00 ac yn cael ei staffio gan dîm rheolaidd a chyson.

Nodwyd gennym bod goruchwylio'r staff yn broses barhaus, na chaiff ei chofnodi'n ffurfiol. Roedd y staff yn fodlon eu bod yn cael eu rheoli'n addas a'u bod yn cael cyfleoedd i drafod arferion a hyfforddiant gyda goruchwylwyr ystafelloedd, mewn cyfarfodydd staff ac wrth gael eu harfarniad blynyddol. Gwnaethom argymell y dylid cynnal cyfarfod goruchwylio mwy ffurfiol rheolaidd gyda'r staff ac y dylai'r cyfarfod hwn fwydo i mewn i'w harfarniadau

blynyddol. Dywedodd y staff wrthym “the door is always open for us to speak to managers” a “they are wonderful, any problems, they are approachable”.

Caiff staff eu rheoli'n effeithiol ac maent yn teimlo fel petaent yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni/gofalwyr yn briodol.

Gwnaeth y rhieni a ddychwelodd holiaduron AGC sylwadau megis ‘staff are friendly and caring’, ‘approachable and always make the children feel welcome’ a ‘we have no concerns’.

Mae'r systemau sydd ar waith i gyfleu 'newyddion' i'r rhieni yn gweithio'n dda. Mae eu hymatebion i holiaduron yn awgrymu eu bod yn fodlon â'r ffordd y mae'r feithrinfa yn gweithredu.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom nodi achosion o gydymffurfio mewn perthynas â'r rheoliadau canlynol. Ni wnaethom gyhoeddi hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan nad oeddem o'r farn eu bod wedi effeithio ar les y plant a hefyd gan fod y feithrinfa wedi cymryd camau priodol ar unwaith i ddatrys y pryderon.

- Rheoliad 25 (1) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: mewn perthynas â sicrhau y caiff drws ochr y feithrinfa ei gadw dan glo bob amser ac nad oes modd i blant yn yr ardal gyfagos gael gafael ar yr allweddi. Rhaid cynnal asesiad risg o'r ardaloedd awyr agored a adnewyddwyd yn ddiweddar er mwyn darparu ardaloedd amgaeedig.

- Rheoliad 29 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010: caiff y staff gyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd â goruchwylwyr ystafelloedd a'r arweinwyr a gofnodir i'w defnyddio yn ystod y broses arfarnu.

Gwnaethom argymell y canlynol hefyd:

- Dylid cynnig mwy o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth;

- dylid adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau yn unol â chanllawiau 'Iechyd Cyhoeddus Cymru' ac y dylid cwblhau 'Archwiliad ar gyfer Rheoli Heintiau', ac y dylid adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau mewn perthynas â nifer y plant y gall un aelod o staff eu hebrwng i'r ardal newid cewynnau a'r toiledau;

- dylid cofnodi cwynion a phryderon mewn llyfr cofnodion y gellir ei fonitro yn ogystal â chofnodi gwybodaeth ar daflenni sy'n bodoli eisoes a gaiff eu storio yn ffeiliau unigol y plant;

- dylid prynu mwy o adnoddau amlddiwylliannol ac arddangos mwy o arddangosiadau amlddiwylliannol yn y feithrinfa er mwyn ehangu ymhellach ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ehangach o grefyddau a diwylliannau o amgylch y byd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd â ffocws a gynhaliwyd o ganlyniad i bryder. Ymwelodd dau arolygydd â'r feithrinfa ar 19 Gorffennaf 2018 rhwng 8:50 a 16:10 er mwyn asesu sut roedd yr arweinwyr wedi ymateb i'r materion a godwyd gydag AGC a pha mor effeithiol fu'r gwelliannau.

Gwnaethom y canlynol:

- Arolygu pob ardal o'r feithrinfa;
- archwilio sampl o gofnodion y plant a ffeiliau'r staff;
- edrych ar bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, asesiadau risg a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;
- arsylwi ar arferion staff a chynnal arsylwadau o'r plant er mwyn canfod eu hwyl a'u lefelau mwynhad;
- siarad â'r plant a rhai o'r staff, yr holl oruchwylwyr ystafelloedd a'r arweinwyr;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Jeanny Reynard** |
| **Personau â chyfrifoldeb** | **Merton Nanda Badra Indira**<br>**Jenifer Gardner**<br>**Sharon Cappiello** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **51** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30 a 18:00 ac eithrio Gwyliau Banc, ac ar**<br>**ddydd Sadwrn rhwng 8:00 a 16:00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **27 Mawrth 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **19 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |